



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Gwasanaethau Cyflogaeth
Shared Services
Partnership
Employment Services

System Genedlaethol ar gyfer Adrodd am y Gweithlu

Annwyl Reolwr Practis,

Mae angen i ni roi gwybod i chi am y newidiadau cyffrous a phwysig i'r ffordd rydym yn cadw gwybodaeth am eich gweithlu ac yn adrodd amdani.

Mae Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gaffael a gweithredu'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd am y Gweithlu.

Mae'r system yn offeryn diogel ar y we a ddatblygwyd ar gyfer pob practis meddygol er mwyn casglu gwybodaeth am staff. Mae'r offeryn eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn 778 o bractisiau NHS England, a gefnogir gan NHS Digital.

Gyda thranc Exeter, byddai'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd am y Gweithlu yn disodli'r dull presennol o adrodd am ddata. Mae'r dull presennol yn llafurus ac mae'n gallu bod yn anghyson, a gall arwain at amrywiadau yn y data, gan ei gwneud yn anodd deall Demograffig y Gweithlu Gofal Sylfaenol neu sicrhau gwaith cynllunio effeithiol.

Beth mae hyn yn ei olygu i'r practis?

- Bydd cynllun peilot yn cael ei lansio mewn practisiau penodol, lle byddant yn profi'r offeryn
- Anfonir templed i bob practis a bydd angen ei gwblhau gyda data pob gweithiwr cyflogedig yn y practis. Bydd y data hyn yn cael eu huwchlwytho ar y system adrodd
- Rhoddir mynediad at y platform diogel lle y gellir cynnal data am y gweithlu
- Bydd yn galluogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu ledled staff y practis
- Byddai'r gwaith o gasglu data, sy'n disodli'r modiwl Exeter a'r broses o adrodd yn uniongyrchol i'r Byrddau Iechyd, yn awtomatidd, gan ddisodli'r angen am adrodd llafurus

Beth ddylwn i ei wneud nawr?

- Rhoi manylion defnyddwyr i reolwyr y practis a fydd yn defnyddio'r system
- Adolygu eich data am y gweithlu yn barod ar gyfer eu huwchlwytho ar y System Genedlaethol ar gyfer Adrodd am y Gweithlu
- Rhannu unrhyw heriau â Phartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru sydd ynghlwm wrth gasglu ac adrodd am ddata am y gweithlu

Beth sy'n digwydd nesaf?

- Bydd y cynllun peilot yn dechrau ar 11 Mawrth
- Byddwn yn rhoi gwybod am ddiweddariadau pellach yr wythnos 18 Mawrth

Mae gen i ragor o gwestiynau am y System Genedlaethol ar gyfer Adrodd am y Gweithlu – â phwy y dylwn i gysylltu?

Rheolir y System Genedlaethol ar gyfer Adrodd am y Gweithlu gan Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

E-bost WNSSP.PrimaryCareWNWRS@wales.nhs.uk

Ffôn **01792 860490/0498**



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Gwasanaethau Cyflogaeth
Partneriaeth Cydwasaethau
GIG Cymru

Shared Services Partnership
Employment Services